

Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Adael yr Undeb Ewropeaidd Briff Ymchwil

10 Chwefror 2020



Y Cynulliad ^a

BREXIT

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Ymchwil y Senedd

Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Adael yr Undeb Ewropeaidd

Briff Ymchwil

10 Chwefror 2020

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6315**

E-bost: **Nigel.Barwise@Cynulliad.Cymru**

Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**

Blog: **SeneddYmchwil.blog**

LinkedIn: **[Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2020**

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau diweddaraf yn ymwneud â Brexit sy'n berthnasol i Cymru. Mae'n cynnwys adrannau ar waith y Cynulliad a Llywodraeth Cymru; yr UE; y DU; a'r Alban ac Iwerddon. Mae'n ymdrin â'r cyfnod rhwng 27 Tachwedd ac 16 Ionawr 2019, er y cyfeirir at ddigwyddiadau diweddarach lle mae gwybodaeth ar gael ar adeg y drafftio terfynol.



Y Cynulliad

BREXIT

Cynnwys

Cyflwyniad 1

Datblygiadau yng Nghymru 2

Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2

Llywodraeth Cymru 4

Newyddion..... 4

Datblygiadau o'r UE 5

Y Cyngor Ewropeaidd 5

Y Comisiwn Ewropeaidd 5

Datblygiadau'r Deyrnas Unedig 8

Llywodraeth y DU 8

Tŷ'r Cyffredin..... 8

Tŷ'r Arglwyddi..... 9

Pwyllgorau 10

Pwyllgor Dethol yr UE..... 10

Is-bwyllgor Ynni a'r Amgylchedd yr UE 10

Is-bwyllgor Materion Ariannol yr UE 10

Is-bwyllgor Materion Cartref yr UE 11

Is-bwyllgor Cyfiawnder yr UE..... 11

Newyddion..... 11

Yr Alban.....13

Senedd yr Alban13

Llywodraeth yr Alban13

Gogledd Iwerddon.....14

Cynulliad Gogledd Iwerddon.....14

Cysylltiadau y DU ac Iwerddon.....15

Adroddiadau wedi'u cyhoeddi16

Llyfrgelloedd Tai'r Senedd.....16

UK in a Changing Europe.....16

LSE Brexit.....16

The Conversation.....16

Arall 17

Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau sy'n berthnasol i Gymru o ran gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n ymdrin â datblygiadau yng Nghymru, yr UE, San Steffan, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'n ymdrin â'r cyfnod rhwng 21 Ionawr a 5 Chwefror 2020, er y cyfeirir at ddiwyddiadau diweddarach lle mae gwybodaeth ar gael ar adeg llunio'r drafft terfynol.

Datblygiadau yng Nghymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol (MADY) yw prif bwyllgor y Cynulliad ar gyfer cydgysylltu gweithgareddau'r pwyllgorau sy'n gysylltiedig â Brexit.

Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor MADY yn gwneud gwaith ar **Gytundebau Rhyngwladol; craffu ar fframweithiau polisi cyffredin y DU; craffu ar Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru; a'r trafodaethau rhwng y DU a'r UE.**

Ar 23 Ionawr fe wnaeth **Llywodraeth Cymru ymateb** (PDF, 445KB) i adroddiad y Pwyllgor **Fframweithiau polisi cyffredin: Gwaith craffu gan y Cynulliad** (PDF, 313KB).

Dyma sesiynau diweddaraf y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol:

- 27 Ionawr: Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu gyda'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit. Mae'r gweddarlliediad **i'w weld yma**; a
- 3 Chwefror: Cyfarfu'r Pwyllgor yn breifat.

Ar 27 Ionawr, nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y canlynol:

- Cynullydd Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth, Ewrop a Materion Allanol Senedd yr Alban at y Cadeirydd ynghylch Bil yr UE (Cytundeb Ymadael)** - 16 Ionawr 2020 (PDF 61 KB);
- y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit at y Cadeirydd ynghylch cyhoeddiad Llywodraeth Cymru 'Y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol: blaenoriaethau negodi i Gymru'** - 20 Ionawr 2020 (PDF 230 KB);
- Cadeirydd Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi ynghylch Bil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael)** - 21 Ionawr 2020 (PDF 54 KB); a
- Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol ynghylch Fforwm Gweinidogol dros Fasnach** - 23 Ionawr 2020 (PDF 260 KB).

Pwyllgorau eraill

Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn cyhoeddi adroddiadau ar is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Mae modd dod o hyd i'r rhain ar **dudalennau'r Pwyllgor**.

Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad i'r **newid yng nghyfansoddiad Cymru**, gan gynnwys ystyried y goblygiadau i setliad datganoli Cymru o ganlyniad i Brexit. Ar 21 Ionawr cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ynghylch **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol)** (PDF 119 KB).

Y Cyfarfod Llawn

21 Ionawr: **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael)**.

22 Ionawr: **Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit (mewn perthynas â'i gyfrifoldebau Gweinidog Brexit); Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol); Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol: Newidiadau i ryddid i symud ar ôl Brexit - y goblygiadau i Gymru; Dadl: Sgiliau'r Gweithlu ar ôl Brexit.**

29 Ionawr: **Dadl ar Ymadawiad â'r Undeb Ewropeaidd; Dadl ar Bysgodfeydd.**

5 Chwefror: **Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol: Fframweithiau polisi cyffredin: Gwaith craffu gan y Cynulliad.**

Cyhoeddiadau Ymchwil y Senedd

Caiff erthyglau blog a dogfennau briffio Ymchwil y Senedd eu cyhoeddi ar **Pigion / In Brief**. Y cyhoeddiadau diweddaraf sy'n gysylltiedig â Brexit yw:

- Bil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) - Diweddariad;**
- Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU** (PDF, 1195KB);
- Adroddiad Monitro Trafodaethau ynglŷn â Gadael yr Undeb Ewropeaidd;**
- Y Berthynas rhwng y DU a'r UE yn y Dyfodol: Yr hyn y gellid ei gytuno yn ystod yr 11 mis nesaf?;**

Llywodraeth Cymru

21 Ionawr: **Gwybodaeth a sicrwydd yn hanfodol er mwyn i ffermwyr fedru cynllunio at y dyfodol – Lesley Griffiths.**

21 Ionawr: **Datganiad Ysgrifenedig: Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE).**

23 Ionawr: **Datganiad Ysgrifenedig: Cyfarfod Grŵp Rhyngweinidogol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, 13 Ionawr 2020.**

29 Ionawr: **Ymadael â'r UE.**

30 Ionawr: **Perthynas â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol yn hollbwysig ar gyfer y diwydiant awyrofod – Prif Weinidog.**

Newyddion

23 Ionawr: **Llywydd CLA yn rhybuddio rhag rhuthro'r broses bontio i fodel taliadau newydd** (Cymdeithas Tir a Busnes Gwlad (CLA))

24 Ionawr: **Peidiwch â phechu - mae rheoliadau'r UE yn dal i fod yn gymwys ar ôl 31 Ionawr (Undeb Amaethwyr Cymru (FUW))**

27 Ionawr: **Llythyr at y Prif Weinidog: NFU ar flaen y gad o ran gofynion masnach a safonau cyn Brexit** (Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru (NFU Cymru))

28 Ionawr: **CLA yn gwneud sylw ar adroddiad y Pwyllgor Cyngori ar Ymfudo (MAC)** (CLA)

29 Ionawr: **Rhaid i bolisi mewnfudo fynd i'r afael ag anghenion bwyd a ffermio hanfodol ar frys** (NFU Cymru)

31 Ionawr: **NFU Cymru yn ymateb i ymadawiad y DU â'r UE** (NFU Cymru)

3 Chwefror: **Cymdeithas y Ffermwyr Tenant yn briffio Aelodau Seneddol ar gyfer Dadl y Bil Amaethyddiaeth** (Cymdeithas y Ffermwyr Tenant)

3 Chwefror: **CLA yn ymateb i araith y Prif Weinidog ar fasnach** (CLA)

Datblygiadau o'r UE

Y Cyngor Ewropeaidd

25 Ionawr: **Llythyr gwahoddiad gan y Llywydd Charles Michel at aelodau'r Cyngor Ewropeaidd cyn eu cyfarfod ar 20 Chwefror 2020.**

30 Ionawr: **Brexit: Y Cyngor yn mabwysiadu'r penderfyniad i ddod â'r cytundeb ymadael i ben.**

31 Ionawr: **"A new dawn for Europe" - Erthygl op-ed gan y Llywyddion Charles Michel, David Sassoli ac Ursula von der Leyen.**

31 Ionawr: **Sylwadau gan y Llywydd Charles Michel ar ddyfodol Ewrop.**

Y Comisiwn Ewropeaidd

10-21 January: Y Comisiwn wedi cyhoeddi sleidiau dan y pennawd "Trafodaethau paratoadol mewnol ar y berthynas yn y dyfodol":

- **Diogelu data personol (penderfyniadau digonolrwydd); Cydweithredu a chywerthedd o ran gwasanaethau ariannol** (PDF 2.1 MB);
- **Cytundeb masnach rydd** (PDF 2MB);
- **Chwarae teg a chynaliadwyedd** (PDF 1,019 KB);
- **Pysgodfeydd** (PDF 909 KB);
- **Trafnidiaeth** (PDF 689 KB);
- **Ynni** (PDF 574 KB);
- **Cydweithio o ran gorfodi'r gyfraith a materion barnwrol mewn materion troseddol** (PDF 2.9 MB);
- **Polisi tramor, diogelwch ac amddiffyn** (PDF 876 KB);
- **Cyfranogiad y DU yn rhaglenni'r Undeb** (PDF 731 KB);
- **Symudedd personau** (PDF 2,460 KB);
- **Llywodraethu** (PDF 526 KB); a
- **Ffurf a natur gyfreithiol y bartneriaeth** (PDF 616 KB).

22 Ionawr: [Prif araith y Llywydd von der Leyen yn Fforwm Economaidd y Byd.](#)

24 Ionawr: [Cwestiynau ac Atebion ar ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd ar 31 Ionawr 2020.](#)

24 Ionawr: [Masnach: yr UE ac 16 aelod o Sefydliad Masnach y Byd yn cytuno i weithio gyda'i gilydd ar drefniant cyflafareddu apêl dros dro.](#)

27 Ionawr: [Araith gan Michel Barnier yn Sefydliad Arweinyddiaeth William J. Clinton.](#)

29 Ionawr: [Araith gan y Llywydd von der Leyen yng Nghyfarfod Llawn Senedd Ewrop yn ystod y ddadl ar y Cytundeb Ymadael.](#)

29 Ionawr: [Rhaglen Waith 2020 y Comisiwn Ewropeaidd: Cynllun uchelgeisiol ar gyfer Undeb sy'n ymdrechu am fwy.](#)

31 Ionawr: [Templed y Note Verbale a anfonwyd at bartneriaid rhyngwladol ar ôl llofnodi'r Cytundeb Ymadael](#) (PDF 153.7KB)

31 Ionawr: [Mae'n rhaid i ni sefyll dros Ewrop](#) – Ursula von der Layen ar deledu Almaenig (Tagesschau - cyfieithiad peirianyddol)

31 Ionawr: [Masnach: Blwyddyn gyntaf Cytundeb Partneriaeth Economaidd yr UE a Japan yn dangos twf yn allforion yr UE.](#)

31 Ionawr: [Datganiad i'r wasg ar y cyd gan y Llywydd von der Leyen gyda'r Llywydd Sassoli a'r Llywydd Michel ar ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.](#)

31 Ionawr: [A new dawn for Europe: Erthygl op-ed ar y cyd gan y Llywydd von der Leyen, y Llywydd Michel a'r Llywydd Sassoli.](#)

3 Chwefror: [Stepen drws gan y Llywydd von der Leyen yn dilyn ei chyfarfod â grŵp o staff Prydeinig y Comisiwn Ewropeaidd, gan gynnwys sylwadau ar y cyfarwydebau negodi drafft a fabwysiadwyd heddiw.](#)

3 Chwefror: [Cyfarwydebau negodi drafft a Chwestiynau ac Atebion](#) ar gyfer partneriaeth newydd gyda'r Deyrnas Unedig.

3 Chwefror: [Datganiad gan Michel Barnier wrth gyflwyno cynnig y Comisiwn am argymhelliad gan y Cyngor ar gyfarwydebau ar gyfer negodi partneriaeth.](#)

[newydd gyda'r DU.](#)

3 Chwefror: [Sleidiau a ddefnyddiwyd gan M. Barnier wrth gyflwyno cynnig y Comisiwn am argymhelliad gan y Cyngor ar gyfarwydebau ar gyfer negodi partneriaeth newydd gyda'r DU](#) (PDF 219.1KB)

Senedd Ewrop

23 Ionawr: [Brexit: y Cytundeb Ymadael yn pasio prawf cyntaf Senedd Ewrop.](#)

29 Ionawr: [Senedd Ewrop yn cymeradwyo cytundeb Brexit.](#)

31 Ionawr: [Aiddosbarthu seddi yn Senedd Ewrop ar ôl Brexit.](#)

Newyddion

23 Ionawr: [Yr UE yn rhybuddio Boris Johnson ynghylch archwilio nwyddau ar Fôr Iwerddon](#) (Belfast Telegraph)

31 Ionawr: [Canlyniadau ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd](#) (Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd) (PDF 229 KB)

31 Ionawr: ['Diolch i bobl Ewrop' - roedd aelodau'r UE yn deall ofnau Brexit ac yn cymryd ein gobeithion i'w calonnau eu hunain](#) (Y Taoiseach Leo Varadkar yn ysgrifennu yn yr Irish Times)

1 Chwefror: [Llythyr at y DU gan Arlywydd Ffrainc](#) (Emmanuel Macron yn ysgrifennu ar Facebook)

Datblygiadau'r Deyrnas Unedig

Llywodraeth y DU

28 Ionawr: Adroddiad y Pwyllgor Cyngori Mudo (MAC): **A Points-Based System and Salary Thresholds for Immigration** (PDF, 4.02MB); **Atodiadau** (PDF, 1.88MB); a **The fiscal contribution of EU migrants - update and scenario analysis** (PDF, 759KB)

28 Ionawr: **Y DU a Gwladwriaethau yr AEE ac EFTA yn Ilofnodi Cytundeb Gwahanu**.

29 Ionawr: **Cytundebau Rhyngwladol gyda Thrydydd Gwledydd yn ystod y Cyfnod Pontio**.

31 Ionawr: **Anerchiad y Prif Weinidog i'r genedl**.

3 Chwefror: **Araith y Prif Weinidog yn Greenwich**.

3 Chwefror: Datganiad ysgrifenedig i'r Senedd: **Y Berthynas rhwng y DU a'r UE yn y Dyfodol**.

4 Chwefror: **Datganiad y DU i Sefydliad Masnach y Byd ar y Gyd-fenter ar Reoleiddiad Domestig Gwasanaethau**. Hefyd, cyhoeddodd y llywodraeth **nodyn i aelodau Sefydliad Masnach y Byd** (PDF, 202KB)

Tŷ'r Cyffredin

21 Ionawr: Cwestiynau Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol: **Ymadael â'r UE: Busnesau yn yr Alban**.

21 Ionawr: Ail Ddarlleniad y **Bil Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol)**.

22 Ionawr: Cwestiynau Swyddfa'r Cabinet: **Ymadael â'r UE: Parodrwydd Adrannol**.

22 Ionawr : **Cwestiynau i'r Prif Weinidog**.

22 Ionawr: Trafod gwelliannau'r Arglwyddi: **Bil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael)**.

22 Ionawr: Dadl Neuadd San Steffan: **Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru**.

23 Ionawr: Cwestiynau Masnach Ryngwladol: **Masnach Rydd Fyd-eang; Porthladdoedd Rhydd; Tariffau Gwledydd a Ffefrir Fwyaf; Masnach Dwyochrog yr UE**.

23 Ionawr: Cwestiynau Menywod a Chydraddoldebau: **Y Cytundeb Ymadael â'r UE**.

27 Ionawr: Datganiad ysgrifenedig ar **Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**.

28 Ionawr: Cyfnod Pwyllgor a Thrydydd Darlleniad y **Bil Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol)**.

29 Ionawr: **Cwestiynau i'r Prif Weinidog**.

30 Ionawr: Dadl ar **Brydain Fyd-eang**.

30 Ionawr: Dadl Neuadd San Steffan ar **wisgi yr Alban: tariffau UDA**.

3 Chwefror: Datganiad yr Ysgrifennydd Tramor ar **Brydain Fyd-eang**.

3 Chwefror: Ail Ddarlleniad y **Bil Amaethyddiaeth**.

4 Chwefror: Cwestiynau y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad: **Ymadael â'r UE: Hawliau Dynol**.

Tŷ'r Arglwyddi

21 Ionawr: **Ail Ddiwrnod Adrodd Bil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael), a pharhad, a Thrydydd Darlleniad**.

22 Ionawr: Cynigion ar welliannau Tŷ'r Cyffredin i **Fil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael)**.

23 Ionawr: Cynnig ar adroddiad Pwyllgor yr Undeb Ewropeaidd: **Pysgodfeydd: Rhwymedigaeth Glanio'r UE**.

27 Ionawr: Cwestiwn ar **Horizon 2020**.

27 Ionawr: Cwestiwn ar y **Bil Amaethyddiaeth: Cynhyrchu Bwyd**.

29 Ionawr: Cwestiwn ar y **Comisiwn Cyfansoddiad, Democratiaeth a Hawliau**.

29 Ionawr: Ail Ddarlleniad (a'r cyfnodau sy'n weddill) y **Bil Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol)**.

30 Ionawr: Cwestiwn ar yr **Undeb Ewropeaidd: Trefniadau Masnach**.

3 Chwefror: Cwestiwn ar **Ymfudo Net**.

3 Chwefror: Datganiad ar **Brydain Fyd-eang**.

Pwyllgorau

Pwyllgor Dethol yr UE

22 Ionawr: **Y Pwyllgor yn cyhoeddi ei ddeunawfed adroddiad ar gytuniadau – Adroddiad: Craffu ar gytundebau rhyngwladol; cytuniadau a drafodwyd ar 21 Ionawr 2020**.

30 Ionawr: **Y Pwyllgor yn cyhoeddi ei bedwaredd adroddiad ar bymtheg ar gytuniadau – Adroddiad: Craffu ar gytundebau rhyngwladol; cytuniadau a drafodwyd ar 29 Ionawr 2020**.

31 Ionawr 2020 - **Llythyr at Stephen Barclay, Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, ynghylch trafod eitemau y mae Pwyllgor yr Undeb Ewropeaidd wedi'u cadw i graffu arnynt** (PDF 154KB)

11 Chwefror: **Sesiwn Dystiolaeth ar y Protocol ar Ogledd Iwerddon / Iwerddon**.

Is-bwyllgor Ynni a'r Amgylchedd yr UE

12 Chwefror: **Sesiwn Dystiolaeth ar Fynediad at Bysgodfeydd y DU ar ôl Brexit**.

Is-bwyllgor Materion Ariannol yr UE

20 Ionawr: **Ymateb y llywodraeth** (PDF, 755KB) i adroddiad yr is-bwyllgor **Brexit: y Setliad Ariannol**.

23 Ionawr: **Efallai y bydd angen banc seilwaith y DU ar ôl Brexit – llythyr dilynol i'r Trysorlys** (PDF, 59KB) i adroddiad yr is-bwyllgor **Brexit: Banc Buddsoddi Ewrop**.

29 Ionawr: **Holi academyddion am wasanaethau ariannol ar ôl Brexit. Trawsgrifiad**.

5 Chwefror: **Holi arbenigwyr y ddinas ar reoleiddio ariannol ar ôl Brexit**.

12 Chwefror: **Sesiwn Dystiolaeth ar Wasanaethau Ariannol ar ôl Brexit**.

Is-bwyllgor Materion Cartref yr UE

23 Ionawr: **Llythyr at y Gwir Anrhydeddus Brandon Lewis AS ar System Gwybodaeth Cofnodion Troseddol Ewrop a System Gwybodaeth Schengen** (PDF 101.6 KB)

29 Ionawr: **Cynrychiolwyr o'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn trafod ailsefydlu ffoaduriaid**.

Is-bwyllgor Cyfiawnder yr UE

4 Chwefror: Sesiwn dystiolaeth ynghylch **A yw'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn gweithio i blant mewn gofal?**

11 Chwefror: **Sesiwn Dystiolaeth ar Brexit: hawliau amddiffyn defnyddwyr**.

Newyddion

21 Ionawr: **Dylai gweithwyr logisteg hanfodol gael eu hesemptio o'r polisi mewnfudo cyfyngol** (Freight Transport Association)

23 Ionawr: **Cyn y negodiadau Brexit, RHA yn annog y Prif Weinidog i gadw loriau i symud yn rhydd ar draws ffiniau** (Road Haulage Association)

24 Ionawr: **BCC yn ymuno â sefydliadau busnes blaenllaw i gynnig cefnogaeth ar gyfer dylunio system fewnfudo newydd** (Siambrau Masnach Prydain)

27 Ionawr: **Y DU wedi'i rhyddhau o'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin** (Fishing News)

28 Ionawr: **Ein hymateb i adroddiad y Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo** (Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI))

28 Ionawr: **Mae logisteg angen mynediad at weithwyr mudol i gadw Prydain yn masnachu** (FTA)

30 Ionawr: **Allbwn ceir y DU yn cwmpo wrth i ddiwydiant dargedu FTA o'r radd flaenaf sy'n cadw cynhyrchu moduron ym Mhrydain** (Cymdeithas Gwneuthurwyr a Masnachwyr Moduron (SMMT))

31 Ionawr: **Rhaid i'r Prif Weinidog sicrhau cytundebau masnach sy'n amddiffyn swyddi a hawliau gweithwyr** (Cyngres yr Undebau Llafur)

3 Chwefror: **Datganiad ADS ar Araith Brexit y Prif Weinidog** (ADS)

3 Chwefror: **Y CBI yn ymateb i araith y Prif Weinidog ar berthynas y DU a'r UE yn y dyfodol** (CBI)

Yr Alban

Senedd yr Alban

Diweddariad Brexit: **30 Ionawr**.

Cyhoeddiadau Canolfan Wybodaeth Senedd yr Alban (SPICe): **Brexit - ateb eich cwestiynau** (PDF 1,141 KB).

20 Ionawr: Lansiodd SPICe ei **hwb ar ôl Brexit**. Mae'r hwb yn un man galw ar gyfer gwybodaeth am drefniadau yn y DU ar ôl Brexit, gan gynnwys fframweithiau cyffredin, cysylltiadau rhyng-lywodraethol a deddfwriaeth allweddol sy'n gysylltiedig â Brexit.

23 Ionawr: Y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth, Ewrop a Materion Allanol: **Sesiwn dystiolaeth ar Erthygl 50 (Cytundeb Ymadael a Negodi Perthynas yn y Dyfodol)**

29 Ionawr: Dadl ar **Gydnabod yr Alban yn Ewrop**.

29 Ionawr: Pwyllgor yr Economi Wledig a Chysylltedd: Trafodaeth am y **Bil Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020**.

30 Ionawr: Datganiad ar **Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**.

Llywodraeth yr Alban

26 Ionawr: **Brexit yn peryglu'r rhai sydd fwyaf agored i niwed**.

27 Ionawr: **Cynllun ar gyfer Fisa yr Alban**.

30 Ionawr: **Neges Ysgrifennydd y Cabinet i'r UE: 'Gadewch olau ymlaen i'r Alban'**.

31 Ionawr: **Ymrwymiad yr Alban i'r UE - Dogfen: Agenda Strategol yr Undeb Ewropeaidd 2020-2024: Safbwynt yr Alban**.

31 Ionawr: **Annog dinasyddion yr UE i aros yn yr Alban**.

Gogledd Iwerddon

Cynulliad Gogledd Iwerddon

Mae gan Wasanaethau Ymchwil a Gwybodaeth y Cynulliad **Hwb Brexit** gyda gwybodaeth a lincs i adnoddau ar Brexit a Gogledd Iwerddon, ac mae hefyd wedi cyhoeddi **Briff Brexit Ionawr 2020**.

27 Ionawr: **Bil Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol): Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.**

3 Chwefror: Dadl ar **Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018**.

Cysylltiadau y DU ac Iwerddon

27 Ionawr: **Y Taoiseach yn cwrdd â Michel Barnier, Negodwr y Comisiwn Ewropeaidd, yn Nulyn.**

8 Chwefror: Etholiad Cyffredinol yn Iwerddon.

Adroddiadau wedi'u cyhoeddi

[Llyfrgelloedd Tai'r Senedd](#)

[Camau nesaf Brexit: Cyllid ffermio yn 2020](#)

[Camau nesaf Brexit: Y cyfnod pontio](#)

[Camau nesaf Brexit: Disodli ASEau'r DU](#)

[Brexit ac Amddiffyn y DU: Nodyn Esboniadol](#)

[UK in a Changing Europe](#)

[Dargyfeirio masnach ac ansicrwydd Brexit](#)

[Etholiad Iwerddon 2020 a Brexit](#)

[Straen Brexit ar y sefydliadau datganoledig a'r DU](#)

[Y Bil Amaethyddiaeth: yr hyn y mae'n ei olygu i ffermio a'r amgylchedd ar ôl Brexit](#)

[Diwrnod Brexit: safbwynt o Iwerddon](#)

[Busnes: gweithio gyda'r UE o'r tu allan](#)

[Mae'r Llywodraeth yn wynebu nifer o ddewisiadau anodd yng nghyfnod nesaf Brexit, yn ôl adroddiad academaidd newydd](#) - Adroddiad: [Brexit: beth nesaf?](#) (PDF 3.6MB)

[LSE Brexit](#)

[Mae'r Bil Amaethyddiaeth yn radical, ond efallai na fydd yn ddigon i gynnal ffermydd llai Prydain](#)

[Brexit wedi'i gyflawni? Newydd ddechrau mae Brexit](#)

[The Conversation](#)

[Mae gan America safbwynt unigryw 300 oed ar fasnach rydd - rhaid i'r DU gydnabod hyn i daro bargaen](#)

[Masnach ar ôl Brexit: mae'r cyhoedd yn blaenoriaethu cytundeb â'r UE ac yn poeni fwyaf am fwyd](#)

[Brexit: ymchwil o Gymru yn dangos pryder y diwydiant creadigol ynghylch ymadael â'r UE](#)

[Arall](#)

[Cytundeb ar ymadawriad y Deyrnas Unedig â'r UE](#) (Blog Gwasanaeth Ymchwil Seneddol Ewrop)

[Mwy o frwydrau Brexit ar y gorwel wrth i'r UE a'r DU amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer perthynas yn y dyfodol](#) (Institute for Government)

[Prydain yn wynebu gwrthddywediad triphlyg](#) (Bruegel)

[Realpolitik y diwrnod ar ôl Brexit](#) (Bruegel)

